



YSGOL I.D. HOOSON

GWYBODAETH BWYSIG I RIENI/GOFALWYR

25.02.21

Annwyl Rieni/Ofalwyr,

Rydym yn edrych ymlaen i groesawu disgyblion y cyfnod sylfaen yn ôl i'r ysgol wythnos nesa. Er y bydd o bosib yn cyfnod ychydig yn bryderus a nerfus i rai disgyblion, rhieni a staff, byddwn yn parhau i weithredu trefniadau iechyd a diogelwch yr ysgol, a 'rwyf yn hyderus gyda chyd-weithrediad pawb sydd yn rhan o gymuned yr ysgol, y bydd y broses o ddychwelyd yn un hwylus.

Un o'r prif newidiadau i'r trefniadau yw cyflwyniad pecynau hunan brofi i holl staff. Bydd y staff yn gweinyddu'r profion ddwy waith yr wythnos. Os y bydd achos ble bydd aelod staff yn adrodd canlyniad positif, bydd yn debygol y bydd angen i'r dosbarth y bu'r athro/awes mewn cyswllt a nhw, i hunan ynysu am y cyfnod penodol yn dilyn cyngor gan lechyd Cyhoeddus Cymru. Mewn achos fel hyn wrth gwrs, ni fydd posib i'r plentyn fynychu ysgol a bydd trefniadau dysgu ar-lein/dysgu cyfunol yn dod i rym i'r dosbarth penodol.

Os y bydd sefyllfa fel hyn yn codi, byddwn yn hysbysu y rhieni perthnasol drwy gyfrwng Schoop a App yr ysgol. Mae'n bosib y cewch eich hysbysu yn ystod diwrnod ysgol/gyda'r hwyr, neu ar y penwythnos. Hoffwn felly eich annog i sicrhau fod gennych fynediad i'r cyfryngau cyfathrebu hyn.

Canllawiau Llywodraeth Cymru - A fydddech cystal a sicrhau eich bod yn parhau i ddilyn canllawiau Llywodareth Cymru sydd yn parhau i fod yn weithredol. Mae rhain yn cynnwys:

Aros gartref

Cyfarfod pobl yr ydych yn byw gyda nhw yn unig
Gweithio o gartref os gallwch
Gwisgo gorchudd wyneb
Golchi eich dwylo'n rheoliadd

Aros 2 fetr oddi-wrth unrhyw un nad ydych yn byw gyda nhw

Gall 4 person o 2 aelwyd wneud ymarfer corff gyda'i gilydd tu allan (nid mewn gardd preifat).
(Nid yw plant o dan 11 oed yn y mwyafswm o 4)

Dylech hunan ynysu os ydych chi neu unrhyw un yn eich cartref yn arddangos symptomau.
Os oes gennych symptomau, dylech gael prawf.

Trefniadau casglu pecynau gwaith i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2(blynnyddoedd 3/4/5/6) –

Bydd trefniadau ar gyfer casglu pecyn gwaith wythnos nesaf fel a ganlyn. Bydd cyfle unwaith eto i chi gasglu pecyn gwaith yn ystod yr wythnos **Os ydych yn dymuno casglu adnoddau, bydd angen i chi fod wedi cysylltu gyda'r athro/awes ddosbarth cyn canol dydd ar ddydd Gwener Chwefror 26ain** er mwyn galluogi fod digon o amser i baratoi pecyn. Byddem yn gwerthfawrogi os fyddai pob ymdrech yn cael ei wneud i gasglu unrhyw becyn yr ydych wedi gofyn amdano, ac iddynt gael ei casglu ar yr amseroedd penodol ar gyfer y dosbarth. Mae cryn dipyn o waith paratoi ac adnoddau yn mynd i mewn i baratoi'r pecynau, ac felly byddem yn gwerthfawrogi fod pob pecyn ac adnoddau y gofynnir amdanynt yn cael ei casglu. Ni fydd pecynau ar gyfer disgyblion y cyfnod sylfaen gan y byddant yn dychwelyd i'r ysgol ar gyfer dysgu wyneb i wyneb.

Bydd yr adnoddau a ofynnwyd amdanynt ar gael i'w casglu o focs fydd wedi ei leoli y tu allan i ddrws neuadd yr ysgol yn y dull arferol. Bydd y gwaith mewn ffolder, gydag enw eich plentyn ar y blaen.

Gofynnwn yn garedig i chi gadw at yr amserlen, gan wisgo mwgwd neu orchudd wrth ddod ar dir yr ysgol.

	Dyddiad / Date	Amser / Time
Mr D.Jones Bl.3&4 / Yr.3&4	02.3.21	10.15-10.45
Miss B Morris Bl.3&4 / Yr.3&4	02.3.21	11.00-11.30
Dosbarth/Class	02.3.21	12.00-12.30
Mr S. Owen Bl.5&6 / Yr.5&6	02.3.21	12.45-1.15
Mrs M.Williams Bl.5&6 / Yr.5&6	02.3.21	1.30-2.00
Miss E. Evans Bl.5&6 / Yr.5&6	02.3.21	2.00-2.30

Unwaith y mae'r adnoddau wedi ei casglu, dylid ymadael a safle'r ysgol yn syth os gwelwch yn dda, gan osgoi ymgynull ar safle'r ysgol i sgwrsio. Mae'r amserlen ar gyfer casglu yn gymharol dyn, ac felly mae ymadael a safle'r ysgol yn brydol yn hwyluso trefniadadau iechyd a diogelwch i bawb wrth i rieni gyrraedd ac ymadael safle'r ysgol. Diolch.

Dydd Gwyl Dewi – Er y bydd y niferoed o blant fydd yn mynychu yr ysgol ar ddydd Llun Mawrth y 1af yn llai na'r arfer, rydym yn annog y plant a'r teuluoedd i ddathlu Gwyl Dewi ar ddydd Llun. Fodd bynnag, o ran y plant fydd yn mynychu ysgol, ar ddydd **Mercher Mawrth y 3ydd** y byddwn yn rhoi cynnig i'r plant ddod i'r ysgol yn gwisgo gwisg Gymreig. Gall hyn fod yn wisg draddodiadol, crys rygbi neu bêl droed Cymru, neu hyd yn oed grys T neu grys chwys coch. Peidiwch a phoeni os nad oes gennych fynediad i wisg, gall y plant fynychu mewn gwisg ei hunain neu yn ei gwisg ysgol arferol.

Diwrnod y Llyfr – Byddwn yn dathlu diwrnod y llyfr ar ddydd **Iau Mawrth y 4ydd**. Gall disgyblion y cyfnod sylfaen fydd yn mynychu ysgol ddod i'r ysgol mewn gwisg cymeriad o lyfr os ydynt yn dymuno gwneud hyn. Peidiwch a phoeni os nag oes posib trefnu gwisg, gall y plant wisgo gwisg ei hunain neu wisg ysgol arferol. Ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 sydd ar hyn o bryd ddim yn mynychu'r ysgol, dwi'n siwr y byddent yn mwynhau gwisgo fel cymeriad o lyfr yn y cartref, a bydd cyfle iddynt rannu ei cymeriad yn ystod y sesiwn fyw gyda'i athro/awes ar y dydd.

Cyfeiriad e-byst ar gyfer staff dysgu:

Miss Amy Morris	MorrisA21@hwbcymru.net
Miss Zoe Williams	WilliamsZ@hwbcymru.net
Miss Manon Davies	DaviesM125@hwbcymru.net
Miss Esther Richards	RichardsE305@hwbcymru.net
Miss Delyth Dempsey	DempseyD1@hwbcymru.net
Miss Catrin Darlington	DarlingtonC7@hwbcymru.net
Miss Bethan Morris	MorrisB27@hwbcymru.net
Mr Dyfan Jones	JonesD106@hwbcymru.net
Mrs Manon Williams	WilliamsM1666@hwbcymru.net
Miss Eiliw Evans	EvansE42@hwbcymru.net
Mr Sion Owen	OwenS19@hwbcymru.net

Byddwn yn gwneud pob ymdrech i'ch hysbysu o unrhyw wybodaeth bwysig y byddwn yn ei dderbyn cyn gynted ag y bydd yn bosib.

Unwaith eto hoffwn eich atgoffa i gofio cysylltu os oes gennych unrhyw gwestiwn neu bryder. Cysylltwch gyda'r athro/awes ddosbarth am unrhyw ymholiad ynglŷn â'r gwaith, neu gyda'r swyddfa mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk am unrhyw ymholiad cyffredinol.

Cofion gorau atoch a chadwch yn ddiogel gan gymryd gofal gyda'ch teuluoedd.

Yn ddiffuant,

Rhodri Jones
Pennaeth